# YSGOL GYMRAEG PARC Y TYWYN

*'Nid da lle gellir gwell'*

# PROSBECTWS

# 2023-2024

Pennaeth / *Headteacher* : Mrs. A. Williams

Dirprwy bennaeth / Deputy head teacher: Mrs. H. Davies

## GWYBODAETH GYFFREDINOL / GAIR O GROESO

Pennaeth: Mrs. Angharad Williams

Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn
Heol y Bardd
Porth Tywyn
SA16 0NL
01554 832101

admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru
@ParcyTywyn

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Mr Matthew Davies
Math o ysgol: Ysgol Gynradd Gymraeg

Annwyl Rieni,

Bwriad y prosbectws hwn yw cynorthwyo rhieni i fod yn ymwybodol o fywyd a gwaith yr ysgol hon. Ysgol Gynradd Gymraeg yw Ysgol Parc y Tywyn. Mae'r disgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed. Trosglwyddir y plant i Ysgol Gyfyn y Strade pan yn un ar ddeg oed.

Fel ysgol benodedig Gymraeg pwysleisir meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o hanes a ddiwylliant Cymru a meistroli rhuglder yn yr iaith Gymraeg. Ysgol Gymraeg ei chyfrwng yw hon sydd yn croesawu plant o gartrefi di Gymraeg yn ogystal a Chymry Cymraeg.

Credwn fel staff mai trwy feithrin cydweithrediad agos rhwng y cartref a'r ysgol y medrir gwneud y gorau i'ch plentyn. Byddwn yn eich gwahodd i'r ysgol i drafod datblygiad eich plentyn yn ystod bob tymor, a byddaf innau a'r athrawon o hyd ar gael i siarad â chi am unrhyw agwedd o ddatblygiad eich plentyn ac o fywyd yr ysgol.

Gobeithiwn y byddwch yn cyfrannu gyda ni yn ein hymdrech i wneud y cyfnod hwn ym mywyd eich plentyn yn un hapus a llwyddiannus.

Yn gywir iawn,
*A Williams*
Mrs A Williams
(Pennaeth)

## DATGANIAD O FWRIAD

Mae Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn yn gymuned ddiogel, ofalgar lle bydd pob plentyn yn cael y cyfle i gyflawni i'w botensial llawn a datblygu'n aelod gwerthfawr o'r gymdeithas.

Ein nod yw i sicrhau profiadau pwrpasol sydd yn herio pawb i lwyddo.

Rydym am cyflawni hyn trwy :

**Annog Annibynniaeth**

**Bachu Brwdfrydedd**

**Cyfoethogi Creadigrwydd**

Ein gobaith yw y bydd plant, rhieni, staff a llywodraethwyr yn gweithio gyda'u gilydd i greu ysgol hapus, gynhyrchiol a symbylol.

## CEFNDIR

Agorodd drysau Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn am y tro cyntaf ar y 4ydd o Hydref 1965. Dyma wireddu breuddwyd nifer o drigolion Porth Tywyn yn ogystal a ffrindiau'r ysgol.  Nid oes unrhyw amheuaeth mai llwyddiant ymgyrchu'r bobl yma oedd á sicrhaodd ysgol Gymraeg i'r ardal. Agorwyd adeilad newydd sbon ar gyfer yr ysgol ar gyrion y dref yn Gorffennaf 2018 – sydd yn sicrhau amgylchedd dysgu fodern.

Mae Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn yn ysgol gynradd benodedig Gymraeg gyda 280 o ddisgyblion ar y gofrestr mewn dosbarthiadau gallu cymysg. Mae 12 ystafell ddosbarth gennym sy'n cynnwys 2 dosbarth Meithrin ac 10 dosbarth prif ffrwd. Mae gan bob aelod o'r staff gyfrifoldeb am wahanol feysydd y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn ymrwymedig i ddatblygiad proffesiynol parhaus er mwyn galluogi staff i gyflawni eu rolau'n effeithiol. Yn ogystal â'r staff addysgu mae gennym nifer o weinyddesau a chynorthwywyr dosbarth. Mae tua 7% o'r plant ar y gofrestr AAY ac yn derbyn cefnogaeth a chymorth ychwanegol. Mae'r ysgol yn ymwneud â digwyddiadau chwaraeon yr ardal ac mae ein gweithgareddau allgyrsiol yn cynnwys rygbi, pêl-rwyd, nofio, côr, offerynnau cerdd, dawnsio gwerin, cyfrifiaduron a'r Urdd. Croesewir rhieni i gynorthwyo yn yr ysgol gyda phethau fel darllen, gwaith celf, dylunio a thechnoleg, cyfrifiaduron, coginio ac ati. Mae gennym Gymdeithas Rhieni Athrawon fywiog a gweithgar sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Mae'r gymdeithas wedi cyflwyno nifer helaeth o roddion i'r ysgol er lles y plant. Mae Llywodraethwyr yr ysgol yn dangos cefnogaeth a diddordeb byw yn y plant a'r ysgol ac maent yn ymweld yn rheolaidd.

## STAFF / TREFNIADAETH

**Pennaeth :** Mrs Angharad Williams

**Dirprwy Bennaeth :** Mrs Helen Davies

**Uwch Dim Rheoli :**
Miss C James (Arweinydd POD 1 & 2), Mrs E Zych (Arweinydd POD 3)

**CADY:** Miss Elinor Williams

**Athrawon :**

Miss L Howells (Blwyddyn 6)
Miss F Gibbon (Blwyddyn 6)
Mrs E Zych (Blwyddyn 5)
Mrs E Evans (Blwyddyn 4)
Mr P Lang-Ford (Blwyddyn 3)
Mrs S Richards (Blwyddyn 2)
Miss C James (Blwyddyn 1)
Mrs H Davies (Blwyddyn 1)
Miss A Griffiths (Derbyn)
Mrs J Williams (Meithrin)

Mrs S Jones (0.1 Blwyddyn 1)

**Staff gweinyddol:** Mrs E Gower

**Cynorthwywyr:**

| | |
|---|---|
| Mrs S Morris | POD 3 |
| Miss L Moore | |
| Miss N Cresdee | |
| Mrs R Young | POD 2 |
| Miss M Samuel | |
| Mrs N Hughes | |
| Mrs S Jones | |
| Miss F Jones | POD 1 |
| Miss A Davies | |
| Miss L Hughes | |
| Mrs S Hughes | |
| Mr S Bevan | |
| Mrs J Griffiths | Ymyrraeth |

**Cydlynwyr rhaglenni ymyrraeth:**
Mrs H Davies : Anghenion Addysgu Ychwanegol
Mrs S Hughes : Uwch Gynorthwyydd Meithrin
Miss L Moore : ELSA

**Staff y Gegin :** Mrs J Evans (Cogyddes)
Mrs C Machlachlan
Mrs D Mudrunic

**Staff y Clwb Brecwast :** Mrs J Evans, Mrs C Machlachlan, Mrs D Mudrunic, Mrs S Lanfear, Miss H Morgan and Mrs S Scutt

**Gofalydd :** Mr P Leedham

**Glanhawyr :** Mr P Leedham, Mr S Bevan, Miss H Morgan, Mrs C Machlachlan and Ms L Guy

**Athrawon Peripatetig:** Mrs A Williams (Ffidl)
Mr C Potter (Pres)
Mr P Shingler (Chwythbrennau )

**Y LLYWODRAETHWYR**

| | |
|---|---|
| Mrs Angharad Williams | Pennaeth |
| Mr Mathew Davies | Cadeirydd/Swyddog Diogelu |
| Cllr Moira Thomas | Cynrychiolydd Cymunedol |
| Cllr Sharon Thomas | Cynrychiolydd Awdurdod Lleol |
| Cllr John James | Cynrychiolydd Awdurdod Lleol |
| Cllr H B Shepardson | Cynrychiolydd Awdurdod Lleol |
| Ms Jan Godfrey-Coles | Rhiant Llywodraethwr |
| Mrs Sian Elias Morris | Cynrychiolydd Staff |
| Mrs Sian Denman | Rhiant Llywodraethwr |
| Mrs Rhiannon Young | Rhiant Llywodraethwr |
| Mrs Nest Griffiths | Cynrychiolydd Cymunedol |
| Cllr Lisa Mitchell | Cynrychiolydd Cymunedol |
| Mrs A Griffin | Cynrychiolydd Cymunedol |
| Mrs Helen Davies | Cynrychiolydd Staff |
| Miss Elinor Williams | Cynrychiolydd Staff |

## Dyletswyddau'r Llywodraethwyr

Rhaid i'r Llywodraethwyr gydweithio yn agos gyda'r pennaeth i sicrhau fod yr ysgol yn gweithio'n effeithiol.

i. Maen nhw'n gyfrifol am berfformiad cyffredinol yr ysgol
ii. Rhaid iddyn nhw archwilio cwricwlwm yr ysgol yng ngoleuni polisïau'r Awdurdod Addysg.
iii. Gallan nhw gynnig egwyddorion i'r pennaeth wrth benderfynu polisi disgyblaeth.
iv. Rheoli arian sydd wedi ei drosglwyddo o'r Awdurdod Addysg.
v. I fod yn gyfrifol am benodi staff yr ysgol.
vi. Sicrhau fod gwybodaeth am yr ysgol ar gael i'r rhieni.
vii. Bod yn gyfrifol am drefnu adroddiad i'r rhieni a threfnu cyfarfod i drafod cynnwys yr adroddiad ag unrhyw fater arall sy'n ymwneud â bywyd yr ysgol.

Disgwylir i'r Llywodraethwyr fynychu hyfforddiant y trefnir gan yr A.Ll. Cynhaliwyd tri chyfarfod tymhorol yn ystod y flwyddyn. O dymor yr Haf 2019, cynhelir cyfarfodydd cyson hefyd ar gyfer yr is-bwyllgorau.

## DERBYNIADAU

Mae'r ysgol yn gweithredu yn unol â pholisi derbyn y sir sy'n sicrhau cyfle cyfartal a chyfleoedd i blant sydd ag anableddau. Mae'n rhaid i rieni wneud cais am le mewn ysgol drwy'r Adran Derbyniadau. Mae proses ymgeisio ar-lein sy'n sicrhau bod ceisiadau'n cael eu rheoli a'u trin yn deg a bod y meini prawf y cytunwyd arnynt yn cael ei ddefnyddio wrth ddelio gyda sefyllfa lle mae mwy o geisiadau nag o leoedd. Ni all ysgol wrthod cais am le yn yr ysgol. Os oes mwy o geisiadau nag o leoedd bydd y rhieni yn cael eu hysbysu a'u cynghori am eu hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad. Mae Panel Annibynnol yn delio ag apeliadau derbyniadau. Mae lle i 45 o blant yn y dosbarth Derbyn.

Derbynnir y plant i mewn i'r ysgol yn y tymor cyn eu penblwydd yn bedair oed. Gwahoddir rhieni i gysylltu a'r ysgol os ydynt yn bwriadu i'w plentyn gael ei dderbyn i Ysgol Parc y Tywyn. Fe gymhellir rhieni i geisio mynediad i un o Gylchoedd Porth Tywyn cyn dechrau ei (g)yrfa yn yr ysgol. Mae'r manylion ar gael gan y pennaeth. Mae'r ysgol yn trefnu i rieni a phlant ymweld a'r ysgol cyn i'r plant ddechrau eu haddysg.

Mae'r ysgol wedi meithrin perthynas agos iawn a Chylchoedd Meithrin y fro. Fe ymwelir a'r cylchoedd hyn gan athrawes y dosbarth derbyn a'r pennaeth o bryd i'w gilydd ac hefyd mae'r cylchoedd yn ymweld a'r ysgol yn gyson.

## CINIO YSGOL

Mae'r prydau ysgol a ddarperir gan yr ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau cyfredol Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) (2014) gyda'r bwydlenni a ddarperir gan Wasanaeth Prydau Ysgol yr Awdurdod Lleol.

Mae'r Gwasanaeth Prydau Ysgol wedi derbyn Tystysgrif Cydymffurfiaeth, sy'n cadarnhau ei fod yn cadw at y Rheoliadau Bwyta'n Iach ac yn darparu diet cytbwys iach i ddisgyblion. Gallwch weld y Rheoliadau yma: bwyta-n-iach-mewn-ysgolion-a-gynhelir-canllawiau-statudol-i-awdurdodau-lleol-a-chyrff-llywodraethu.pdf

Rydym yn gweithredu system ParentPay er mwyn i chi dalu am ginio a thripiau. Mae system ParentPay yn ffordd fwy cyfleus a diogel i chi dalu am brydau ysgol ar-lein. Cliciwch ar y ddolen i ddarllen mwy.

ParentPay | Parc Y Tywyn School (ysgolparcytywyn.co.uk))

**Prydau Ysgol am Ddim:**

Roddir Prydau Ysgol am Ddim i blant os yw Rhieni yn derbyn Cymorth Incwm. Gallwch gyrchu gwybodaeth pellach a chael mynediad i'r ffurflen gais drwy glicio ar y ddolenni yma:

Prydau Ysgol am Ddim a Phrydau Ysgol Am Ddim i bob Plentyn Ysgol Gynradd (llyw.cymru)

Darganfod mwy am brydau ysgol am ddim | LLYW.CYMRU

Gwneud cais am Brydau Ysgol am Ddim - Fy Nghyfrif (llyw.cymru)

Rennir wybodaeth ar ein Polisi Bwyd a Ffitrwydd hefyd: polisi-bwyd-a-ffitrwydd-2023.pdf (primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com)

**Prydau Ysgol am Ddim i bob Plentyn Ysgol Gynradd:**

O ganlyniad i'r pwysau cynyddol o ran costau bwyd ar deuluoedd ac uchelgais Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael a thlodi plant, mae cynllun ar waith i sicrhau ni fydd unrhyw blentyn yn mynd heb fwyd yn yr Ysgol. Erbyn 2024, bydd pob plentyn Ysgol Gynradd yng Nghymru yn gymwys i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim. Cafodd y cynllun ei gyflwyno ym Medi 2022, gwelwch yr amserlen arfaethedig isod:

**Medi 2022**: Holl ddysgwyr Dosbarthiadau Derbyn i gael Prydau Ysgol am Ddim

**Ionawr 2023**: Holl ddysgwyr Dosbarthiadau Derbyn a Blwyddyn 1 i gael Prydau Ysgol am Ddim.

**Ebrill 2023**: Holl ddysgwyr Dosbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 i gael Prydau Ysgol am Ddim.

Gallwch gyrchu manylion pellach ar y ddolen isod:

Prydau Ysgol am Ddim a Phrydau Ysgol Am Ddim i bob Plentyn Ysgol Gynradd (llyw.cymru)

**Pecynau Bwyd Iachus:**

Mae croeso i ddisgyblion sy'n dymuno dod â phecyn bwyd i'r ysgol wneud hynny. Fel Ysgol sy'n hyrwyddo iechyd rydym yn annog rhieni / gofalwyr i baratoi Pecyn Bwyd Iach ar gyfer eu plant fel bod negeseuon cyson yn cael eu hailadrodd mewn perthynas â Bwyta ac Yfed yn Iach. Fel ysgol nid ydym yn caniatáu diodydd pefriog na diodydd egni o fewn pecynnau bwyd ac yn diarddel rhieni i gynnwys melysion a danteithion melys. Mae gwybodaeth ddefnyddiol am baratoi Cinio Pecyn Iach ar gael yma:

Pecynnau cinio iach (llyw.cymru)

**Ysgol Ddi-gnau**

Wrth i ni ymdrechu i gynnal amgylchedd diogel a chynhwysol ar gyfer ein holl fyfyrwyr, hoffem eich hysbysu bod ein hysgol yn ysgol ddi-gnau. Mae'r rhagofal hon wedi'i gosod i sicrhau llesiant a diogelwch myfyrwyr sy'n dioddef o alergeddau fwydydd difrifol. Felly, rydym yn gofyn yn garedig i chi osgoi anfon unrhyw eitemau bwyd sy'n cynnwys bwydydd neu gynhyrchion bwydydd ym mlychau cinio neu byrbrydau eich plentyn. Hefyd, rydym yn annog chi i wirio labeli bwyd yn ofalus i osgoi unrhyw gynnwys anfwriadol o gnau ym mwyd eich plentyn. Mae eich dealltwriaeth a'ch cefnogaeth wrth gadw at ein polisi di-gnau yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Gan weithio gyda'n gilydd, gallwn greu amgylchedd diogel a ddi-phryder ar gyfer ein holl fyfyrwyr, gan eu galluogi i ganolbwyntio ar eu haddysg ac i fwynhau eu hamser yn yr ysgol heb unrhyw bryderon am adweithiau alergeddau.

**Siop Ffrwythau:**

Mae Siop Ffrwythau yn weithredol yn yr ysgol ac yn cael ei rheoli gan ddisgyblion Blwyddyn 6. Gall pob disgybl brynu detholiad o ffrwythau o'r siop am bris 40c y dydd neu £2 yr wythnos. Diben y siop yw annog bwyta byrbrydau iach. Mae croeso i ddisgyblion nad ydynt yn prynu ffrwythau o'r siop ddod a ffrwythau neu lysiau eu hunain fel byrbryd. Fel ysgol nid ydym yn caniatáu byrbrydau afiach ar safle'r ysgol.

**Diod**

Dwr a Llaeth yw'r unig ddiod byddwn yn darparu yn yr Ysgol er mwyn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion. Rydym yn gweithredu'r Ymgyrch Llaeth am Ddim i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen ac yn gweithredu'r fenter 'Dwr ar ddesgiau' sy'n galluogi disgyblion i yfed dwr yn ôl yr angen. Mae dwr ffres ar gael i ddisgyblion yfed gyda'u cinio yn y neuadd ginio hefyd.

Am fanylion pellach cyfeiriwch at ein polisi Bwyd a Ffitrwydd: polisi-bwyd-a-ffitrwydd-2023.pdf (primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com)

## ORIAU'R YSGOL

Ceir egwyl fer yn ystod sesiwn y bore a'r prynhawn. Daw cyfanswm yr oriau addysgu i 21 awr a 15 munud yr wythnos yn y Cam Cynnydd 1 a 2 (POD 1 a 2 sef Meithrin Llawn Amser, Derbyn, Blynyddoedd 1, 2 a 3) a 22 awr a 30 munud yr wythnos yn Cam Cynnydd 3 (POD 3 sef Blynyddoedd 4, 5 a 6) - yr oriau a dreulir ar addysgu yn ystod wythnos ysgol gan gynnwys addysg grefyddol ond nid y weithred ddyddiol statudol o gydaddoli, o gofrestru ac egwylion. Dylid sicrhau bod y plant yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon ar gyfer dechrau'r diwrnod ysgol. Dylai plant gyrraedd yr ysgol rhwng 8:50yb a 9:00yb. Dylid casglu'r plant o'r ysgol yn brydlon am 3:20yh (POD 1&2) / 3:25yh (POD 3).

**POD 1**

| | | |
|---|---|---|
| Meithrin bore (rhan amser) | 9:00 – 11:30 | |
| Meithrin prynhawn (rhan amser) | | 13:00-15:20 |
| Meithrin Llawn amser | 9:00 – 11:30 | 12:30-15:20 |
| Derbyn | 9:00 – 11:30 | 12:30-15:20 |

**POD 2**

| | | |
|---|---|---|
| Blwyddyn 1 a 2 | 9:00 – 12:00 | 13:00 – 15:20 |

| | | |
|---|---|---|
| Blwyddyn 3 | 9:00 – 12:00 | 13:00 - 15:20 |

**POD 3**

| | | |
|---|---|---|
| Blwyddyn 4, 5 a 6 | 9:00 – 12:30 | 13:30-15:25 |

## GWISG YSGOL

Rydym ni'n annog y disgyblion i wisgo gwisg ysgol bob dydd er mwyn ennyn parch ac agweddau positif tuag at yr ysgol. Mae gan Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn wisg unffurf ac fe anogir yr holl ddisgyblion i'w gwisgo bob amser. Coch a llwyd yw lliwiau'r wisg ysgol.

## ARIAN

Dylid wneud pob taliad am ddigwyddiadau ac ymweliadau ar-lein drwy www.parentpay.co.uk.

## POLISI CODI TÂL

Gofynnir i rieni dalu, a hynny'n wirfoddol, am y canlynol:
- ymweliadau addysgol/teithiau ysgol
- bysiau ar gyfer gweithgareddau chwaraeon ayyb.
- ymweliadau gan gwmnïau theatr a siaradwyr/ ymwelwyr eraill
- rhai clybiau (pan fo darparwyr allanol)
- deunyddiau o dro i dro (e.e. cynhwysion coginio).

Heb gefnogaeth ariannol gan rieni, ni fydd yn bosib i rai o'r gweithgareddau hyn ddigwydd! Ni fydd plentyn yn cael ei wahardd rhag cymryd rhan os yw ei rieni'n methu â thalu. Os oes problem wirioneddol, dylech gysylltu â'r Pennaeth bob amser.

Rydym yn defnyddio'r system ParentPay i dalu am ymweliadau a theithiau, felly dyma sut byddwn yn casglu'r arian. Mae system ParentPay yn ffordd fwy cyfleus a diogel i chi dalu ar-lein.

## RHIFAU FFÔN ARGYFWNG

Cedwir rhifau ffôn argyfwng yn swyddfa'r ysgol ar gyfer achosion damweiniau a salwch. Dylid sicrhau eu bod yn cael eu diweddaru! Anfonir Ffurflen Gyswllt at rieni ar ddechrau bob blwyddyn ysgol i'r perwyl hynny. Os fydd y wybodaeth yn newid yn ystod y flwyddyn ysgol, rhowch wybod i ni wrth gysylltu gyda'r swyddfa.

## IECHYD, LLES A DIOGELWCH

Cymerir pob gofal am ddiogelwch a lles plentyn tra byddant yn yr Ysgol. Os bydd plentyn yn sal neu mewn damwain, cysylltir a'r rhieni, yna, os bydd angen, eir a'r plentyn i'r Adran Ddamweiniau Ysbyty Prince Phillip neu Glangwili**.**

Os yw eich plentyn yn sâl, gofynnwn i chi ffonio'r ysgol a rhoi gwybod i Mrs Gower am symptomau a salwch eich plentyn fel y gellir cadw at y cyfnodau gwahardd cywir. Mae cyfnodau gwahardd yn angenrheidiol i sicrhau bod disgyblion yn cael eu cadw draw o leoliad yr ysgol am amser penodol i

leihau lledaeniad salwch ac afiechyd i eraill. Er enghraifft, petai plentyn yn dioddef o salwch a dolur rhydd a chwydu, ni ddylai'r disgybl dychwelyd i'r ysgol am oleiaf 48 awr. Gallwch gyrchu'r Cyfnodau Gwahardd presennol ar gyfer salwch a chlefydau cyffredin o'n gwefan ysgol:

https://phw.nhs.wales/services-and-teams/harp/infection-prevention-and-control/guidance/exclusion-period-for-common-infections-january-2022-welsh/

Mae'r Nyrs Ysgol yn ymweld a'r Ysgol yn rheolaidd i addysgu disgyblion am Hylendid Personol a Bwyta'n Iach yn ogystal ag archwilio clyw, golwg a dannedd y disgyblion.

Mae ein Hysgol hefyd yn cefnogi sawl rhaglen iechyd megis y Rhaglen Mesur Plentyndod, lle bydd ein Nyrs Ysgol yn mesur taldra a phwysau disgyblion a'r rhaglen imiwneiddio rhag y ffliw lle gall disgyblion gael mynediad i'r brechlyn ffliw a weinyddir gan Nyrsys ysgol.

## MEDDYGINIAETH

Roddir moddion i blentyn mewn achosion arbennig yn unig ac ar ôl derbyn ffurflen caniatâd meddygol wedi'i gwblhau gan Riant / Gwarchodwr. Mae'r ffurflen ganiatâd ar gael ar ein gwefan Ysgol:

ffurflen-meddyginiaeth-medical-consent-form.pdf (primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com)

Caiff asesiadau risg eu cwblhau yn rheolaidd i sicrhau bod yr adeilad, y safle a mannau ymweld yn ddiogel i'r plant, staff ac ymwelwyr. Mae gan yr Ysgol system larwm lladron a thân a cheir 'Ymarferion Tân' yn dymhorol.

Ni all disgyblion adael adeilad yr ysgol heb fynediad i 'ffob' arbennig sydd gan staff Addysgu a Chysylltiol yn unig.

Mae pob aelod o staff sy'n gweithio yn yr ysgol wedi cael Gwiriadau DBS, gan gynnwys staff cyflenwi. Cynhelir gwiriadau cefndir hefyd ar unrhyw ymwelydd a wahoddir i'r ysgol cyn yr ymweliad ei hun a rhennir polisïau â diogelwch gyda nhw. Mae'r holl staff addysgu yn parhau i fod yn bresennol mewn sesiynau a gyflwynir i ddisgyblion gan ymwelwyr. Mae gan yr Ysgol bolisiau a gweithdrefnau clir ar gyfer materion Iechyd a Diogelwch, galwch gyrchu'r polisiau yma ar ein gwefan Ysgol: https://www.ysgolparcytywyn.co.uk/polisiaupolicies/

Mae'r holl staff yn derbyn hyfforddiant priodol ar gyfer materion diogelu plant gan gynnwys Cymorth Cyntaf.

Mae ein Swyddog Cyswllt Heddlu lleol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd er mwyn cyflwyno gwersi penodol sy'n canolbwyntio ar faterion diogelwch amrywiol megis Bwlio a Diogelwch ar y Rhyngrwyd. Gallwch gyrchu'r ddewislen Gwers yma: Microsoft Word - 2022-23-Matrics-Gwersi-SchoolBeat.docx

Mewn perthynas â lles emosiynol a meddyliol ein disgyblion, rydym yn gweithredu'r teclyn 'Speakr' sy'n galluogi disgyblion i fynegi eu teimladau yn ddyddiol ac Athrawon i fonitro eu hemosiynau yn ddyddiol, yn wythnosol, yn fisol ac yn flynyddol. Os oes angen cymorth pellach ar ddisgyblion, yna gall

staff drefnu hyn yn ôl yr angen. Ar gyfer disgyblion sydd wedi'u nodi fel rhai sydd angen cymorth emosiynol ychwanegol mae cyfle iddynt fynychu sesiynau gydag ELSA'r ysgol (Emotional Literacy Support Assistant).

Mae staff penodol hefyd wedi bod ar hyfforddiant perthnasol yn eu huwch-sgilio i ddarparu cymorth i ddisgyblion sydd ei angen.

Rydym yn Ysgol Ddi-fwg a ni all neb anweddu nac ysmygu ar dir yr ysgol. Rydym fel ysgol yn gwarchod yr holl staff, plant, rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr rhag eu gadael yn ddiamddiffyn i fwg ail-law a thrydedd-law, ac i gynorthwyo cydymffurfio â darpariaeth ddi-fwg Deddf Iechyd 2006 a'r rheoliadau perthnasol i Gymru, a ddaeth i rym yn 2007, a Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 a'r rheoliadau perthnasol sydd yn deillio ohoni. Dyma ddolen at ein polisi.

https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/parc-y-tywyn-school/UploadedDocument/b7aea9b4-6fea-4088-aca0-a3880dbea02e/smokefree-policy.pdf

Rydym yn Ysgol iach ac yn rhan o Rwydwaith Ysgolion Iach Cymru. Gallwch fod yn hyderus yn ystod amser eich plentyn gyda ni, byddant yn datblygu eu dealltwriaeth a'i ymwybyddiaeth o sut i fod yn aelodau hapus ac iach o'r gymuned. Bydd archwiliadau clyw, golwg a deintyddol yn digwydd yn ystod cyfnod y plant yn yr ysgol. Mae dysgwyr POD 1 a 2 yn derbyn llaeth am ddim ac rydym ni yn rhan o sesiynau deintyddol rheolaidd. Mae'r nyrs yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i addysgu ein disgyblion am hylendid, diogelwch yr haul a pheryglon ysmygu. Fel rhan o'n gwaith i yrru disgyblion i ddatblygu i fod yn iach a hyderus, rydym yn annog dysgwyr i yfed dŵr ac rydym yn gwerthu ffrwythau yn ddyddiol yn ein siop ffrwythau. Yn yr ysgol mae gennym ddisgyblion sydd yn Lysgenhadon Chwaraeon a'u rôl yw sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn ein hysgol. Maent yn cynnal sesiynau ffitrwydd wythnosol. Ynghyd â hyn, yn ddyddiol mae pob dosbarth yn rhedeg milltir ac rydym yn rhedeg Clybiau Lles ar ôl Ysgol.

## CYFLE CYFARTAL

Rydym fel ysgol yn hyrwyddo tegwch a chydraddoldeb yn yr addysg a cynigwn yn yr ysgol. Nid yw Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn yn gwahaniaethu yn erbyn neb, boed yn staff, disgyblion neu ymwelwyr ar sail eu rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, hil, anabledd, crefydd neu liw. Rydym fel ysgol yn sicrhau fod yr holl ddisgyblion yn derbyn yr un cyfleoedd addysgol. Anelwn fel ysgol at waredu gwahaniaethu anuniongyrchol sy'n medru atal addysg gyflawn.

drafft-equal-opportunities-feb-2023.pdf (primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com)

## DISGYBLION SYDD AG ANABLEDD

Gwneir trefniadau arbennig rhwng yr ysgol a'r cartref pan fo disgybl sydd ag anableddau neu Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cychwyn yn yr ysgol. Cysyllter â'r pennaeth am ragor o fanylion. Mae'r ysgol yn sensitif i anghenion disgyblion sydd ag anableddau ac yn gwneud pob ymdrech i'w cynnwys ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r ysgol yn barod i ddarparu ac addasu

cyfleusterau. Oherwydd alergeddau rhai plant, rydym yn Ysgol Di-gnau a disgwylir i bawb barchu hyn drwy beidio dod a bwyd sydd yn cynnwys cnau i'r ysgol.

## Gwrth-hiliaeth

Mae hawl gan bob plentyn i dderbyn yr addysg orau a ellir ei gynnig gan yr ysgol gan roi cyfle i'r disgyblion i gyd i brofi amrywiaeth o weithgareddau. Anelwn at greu ethos sy'n groesawgar i bawb. Mae Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn yn gweithredu Polisi Cydraddoldeb Hiliol a'n bwriad yw sicrhau y bydd ethos yr ysgol yn rhoi i'r plant yr amgylchedd iawn i dyfu'n aelodau o gymdeithas amlddiwylliannol gan barchu eraill a dangos gwir ddiddordeb yn eu buddiannau. Mae'n bwysig parchu cred a diwylliant pobl eraill, mae'n bwysig felly i helpu'r plant i barchu ffyrdd eraill o fyw; i'w gwneud yn ymwybodol bod ffyrdd o fyw moesol ac ystyrlon yn gyffredin i bob cenedl a diwylliant; ac i fod yn garedig a thrugarog wrth bawb beth bynnag fo'u cefndir diwylliannol. Dilynir fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol i gynnig profiadau eang i'r disgyblion er mwyn datblygu synnwyr o hunan werth ac i allu uniaethu'n effeithiol ac eraill. Mae'r Polisi Cydraddoldeb Hiliol yn cael ei effaith ar ein Polisi Disgyblu, y Polisi Addysg Grefyddol, y Polisi ABCh, a'r Polisi Cyfleoedd Cyfartal.

## ETHOS, YMDDYGIAD A DISGYBLAETH

Ein dymuniad yn Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn yw cynnal hinsawdd sy'n hybu agwedd gadarnhaol tuag at ymddygiad a disgyblaeth. Ein bwriad yw datblygu ymwybyddiaeth o hunanddisgyblaeth, cyfrifoldeb a pharch y naill at y llall yn ein disgyblion. Gwobrwyir gwaith da ac ymddygiad da drwy roi sêr, pwyntiau, tystysgrifau ac Amser Aur. Pan fydd rhywun yn torri'r rheolau hyn, defnyddir sancsiynau priodol a bwriadus fel colli amser rhydd, colli breintiau, ymddiheuriadau ysgrifenedig ac adrodd i'r Pennaeth. Trafodir problemau disgyblaeth difrifol â rhieni yn gynnar a phwysleisir y bartneriaeth hon. Mae gan Barc y Tywyn gytundeb ysgol/cartref sydd i'w gytuno a'i lofnodi gan y plant, y rhieni a'r staff.

## Y CWRICWLWM

Yn Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn, ein bwriad yw datblygu dysgwyr hyderus ac annibynnol sy'n gallu chwarae ran lawn yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae rhaid i gwricwlwm Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn helpu plant a phobl ifanc i gyflawni'r 4 prif ddiben:

Mae'r 4 prif ddiben yn mynd i helpu plant a phobl ifanc i fod yn:

1. **Dysgwyr uchelgeisiol a galluog:** Golyga hyn eu bod nhw'n credu ynddyn nhw eu hunain a beth maen nhw'n gallu ei wneud. Maen nhw eisiau dysgu a gwneud yn well. Mae ganddyn nhw'r sgiliau i ddysgu.
2. **Mentrus a chreadigol:** Golyga hyn eu bod nhw'n gallu bod yn greadigol a meddwl am syniadau newydd. Maen nhw'n gallu datrys problemau. Maen nhw'n gallu cymhwyso hyn yn eu gwaith.
3. **Dinasyddion egwyddorol a gwybodus**: Golyga hyn eu bod nhw'n deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Maen nhw'n cymryd rhan yn eu cymuned. Maen nhw'n edrych ar ôl y byd.
4. **Unigolion Iach a Hyderus:** Mae hyn yn golygu eu bod yn gwybod sut i gadw'n iach. Deallant fod yna wahanol emosiynau a sut i ymateb i'r rhain. Maent yn gwneud y dewisiadau cywir am iechyd. Maent yn hyderus yn eu dewisiadau.

# Egwyddorion Cynllunio'r Cwricwlwm yn Ysgol Parc y Tywyn

Yn Ysgol Parc y Tywyn, mae ein Cwricwlwm;

**Yn ddilys** - Wedi gwreiddio yng ngwerthoedd a diwylliant Cymru

**Wedi ei seilio ar dystiolaeth** - yn gwneud defnydd o'r arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt+

**Yn ymatebol** - yn berthnasol i anghenion heddiw

**Yn gynhwysol** - yn hawdd i bawb ei ddeall gan gwmpasu hawl pob plentyn a pherson ifanc i gael addysg o ansawdd uchel

**Yn uchelgeisiol** - yn ymgyffroi disgwyliadau mawr heb osod terfynau artiffisial

**Yn rymusol** - galluogi pobl ifanc i wynebu heriau'n hyderus

**Yn unedig** - yn caniatáu parhad a dilyniant (cam i gam)

**Yn ddiddorol** - yn hybu mwynhad o ddysgu

**Wedi seilio ar sybsidiaredd** - yn ennyn hyder ym mhawb gan gymell perchnogaeth briodol.

**Yn hawdd ei drin** - yn cydnabod goblygiadau o ran cael trefniadau asesu ac atebolrwydd priodol

Rydym yn sicrhau bod y disgyblion yn derbyn amryfal brofiadau o fewn holl meysydd dysgu a phrofiad y cwricwlwm.

Y 6 Maes Dysgu a Phrofiad ydy:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a llesiant
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'n ofynnol addysgu Addysg Grefyddol yn yr ysgolion hefyd. Yn ystod cyfnod y plant yn yr ysgol hon, ein bwriad yw rhoi'r cyfle iddynt ymwneud ag ystod o brofiadau diwylliannol drwy ymweld ag orielau celf, cwmnïau theatr teithiol a gweithio gydag artistiaid, awduron, chwedleuwyr neu artistiaid perfformio.

## Y GYMRAEG

Ysgol benodedig Gymraeg yw Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn. Ar wahân i'r Saesneg, sy'n cael ei chyflwyno o Flwyddyn 3 ymlaen, mae pob pwnc yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni addysgir Saesneg cyn Blwyddyn 3. Anogir pob plentyn i ddefnyddio'r Gymraeg bob amser.

## ADDYSG CHYDBERTHNASEDD A RHYWIOLDEB

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn rhan gadarnhaol ac amddiffynnol o Cwricwlwm i Gymru 2022. Mae'n chwarae rôl ganolog wrth gefnogi dysgwyr i fwynhau perthnasoedd boddhaol, iach a diogel drwy gydol eu bywydau. Mae cyd berthnasoedd iachus yn holl bwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Fel y gwyddoch mae'r byd o'n cwmpas yn datblygu'n gyflym ac yn sylweddol. Fel cymdeithas rydym yn dod yn fwy, fwy ymwybodol o newidiadau mewn strwythurau cydberthnasau teuluol, rhywedd a rhywioldeb, dulliau cyfathrebu a newidiadau a hawliau sy'n ymwneud a chydberthnasau. Felly, er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn derbyn cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n briodol, yn ddatblygiadol ac yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, fel ysgol byddwn yn cyflwyno'r COD Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gorfodol, a rennir isod.

cwricwlwm-i-gymru-cod-addysg-cydberthynas-rhywioldeb.pdf (llyw.cymru)

Hoffwn bwysleisio bod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb bellach yn orfodol mewn ysgolion ar gyfer disgyblion 3-16 oed ac nid oes gan rieni/gofalwyr yr hawl bellach i dynnu eu plentyn allan o'r Cwricwlwm ACRh. Fodd bynnag, fel ysgol rydym yn croesawu rhieni / gofalwyr i ymweld â'r ysgol i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt am rai agweddau o'r cwricwlwm.

Am fanylion pellach, darllenwch ein Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sydd ar gael ar ein gwefan Ysgol:

polisi-addysg-cydberthynas-a-rhywioldeb-acrh-sir-gar-pyt-2023-cymraeg.pdf (primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com) a darllen y deunydd cefnogol sydd ar gael ar HWB: Repository - Hwb (gov.wales)

## TROSGLWYDDO I'R UWCHRADD

Mae plant Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Y Strade ar ddiwedd blwyddyn 6. Fodd bynnag, y rhieni sy'n dewis i ba ysgol y bydd eu plant yn mynd. Yn ystod Blwyddyn 6, mae'r Awdurdod Addysg Lleol yn anfon llyfryn manwl sy'n cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol ynghylch trefn ceisiadau a derbyniadau ysgolion uwchradd. Mae Ysgol Gyfun Strade yn darparu ffurflenni derbyn a gwybodaeth i ddisgyblion Blwyddyn 6 ac mae noson agored bob blwyddyn hefyd, a hynny'n rhoi cyfle i rieni a disgyblion Blwyddyn 6 i gwrdd â phennaeth a staff Ysgol Gyfun Y Strade.

## ASESU

Mae cofnodion o waith y plant yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Cofnodir tystiolaeth o waith disgyblion a gweithredir asesu parhaol – ffurfiol ac anffurfiol- o gynnydd disgyblion unigol a chaiff datblygiad a pherfformiad pob plentyn ei 'dracio'. Cynhelir profion blynyddol Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn ogystal, i flynyddoedd 2 - 6. Anfonir Adroddiadau Blynyddol at rieni tua diwedd y flwyddyn ysgol ynghyd ag asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnodau Allweddol. Gwelir y canlyniadau diweddaraf yn y prosbectws hwn. Cynhelir Prynhawniau/Nosweithiau Agored ddwywaith y flwyddyn lle caiff rhieni gyfle i ymweld â'r ysgol a chael sgwrs â'r athro dosbarth am ddatblygiad eu plentyn.

## GWAITH CARTREF

Wrth i'r plant symud o flwyddyn i flwyddyn, mae'r gwaith cartref a osodir yn cynyddu. Disgwyliwn i blant i dreulio tua un awr yr wythnos ar waith cartref, er bod hyn o bosib yn cynnwys darllen gyda rhiant. Rhown ddyddiadur darllen i bob plentyn er mwyn i'r plentyn neu'r athro/athrawes neu'r staff

cynorthwyol fedru cofnodi'r gwaith cartref darllen a hefyd er mwyn i'r rhieni/gofalwyr fedru gwneud sylwadau lle bo angen. Byddem yn gwerthfawrogi cefnogaeth rhieni i sicrhau bod gwaith cartref yn cael ei gwblhau a'i ddychwelyd yn brydlon.

## TAI BACH

Mae gan yr ysgol ddigon o dai bach i'r disgyblion yn y prif adeilad. Mae yna ddigon o dai bach i'r bechgyn a'r merched drwy'r ysgol. Mae'r cyfleusterau yn addas ar gyfer oed y plant sy'n eu defnyddio. Hefyd, mae gan yr ysgol dai bach sydd á mynediad i bobl anabl. Ceir tai bach ychwanegol at ddefnydd staff ac ymwelwyr yn unig. Glanheir y tai bach yn ddyddiol. Arddangosir posteri golchi dwylo gweledol uwchben pob basn ymolchi yn nhoiledau'r ysgol i addysgu ac atgoffa disgyblion o dechnegau golchi dwylo effeithiol. Mae darpariaeth Tywelion Glanweithdra hefyd ar gael yn y toiledau Merched yng Nghyfnod Allweddol 2. Darperir unedau tafladwy misglwyf hefyd.

## CYD ADDOLI/ GWASANAETHAU

Caiff y disgyblion y cyfle i gyd addoli yn ddyddiol. Mae'r adegau yma yn cynnig cyfle arbennig i gymuned yr ysgol gyfarfod gyda'i gilydd i gydaddoli ac ystyried materion sy'n effeithio ar yr ysgol gyfan, gan gwmpasu pynciau mor amrywiol â bwlio, gwyliau, perthnasoedd a phobl enwog. Mae gan rieni'r hawl i dynnu eu plant yn ôl o'r gwasanaethau neu ran ohonynt a'r gwersi Addysg Grefyddol yn y dosbarth. Mae croeso i chi drafod hyn gyda'r Pennaeth.

## ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Ein bwriad yw darparu cyfle i bob plentyn ddatblygu i'w lawn botensial, o gofio anghenion a gallu unigol y plentyn. I'r mwyafrif o ddisgyblion, cyflawnir yr anghenion hynny yn y dosbarth drwy'r Cwricwlwm Cenedlaethol a pholisïau cwricwlwm cysylltiedig yr ysgol a'r strategaethau dysgu ac addysgu. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen cymorth ychwanegol ar nifer bach o blant. Credwn fod adnabyddiaeth gynnar ac ymyriad priodol yn gwella disgwyliadau plant ag Anghenion Addysgol Ychwanegol. Ein hamcan yw creu amgylchedd ysgol sy'n meithrin anogaeth, derbyniad, parch a sensitifrwydd fel y gall pob plentyn ag Anghenion Addysgol Arbennig brofi llwyddiant yn ôl eu cyfyngiadau unigol . Mae gennym nifer o strategaethau cefnogi y gellir eu cynllunio i ddiwallu anghenion plentyn unigol, gan gynnwys anghenion Plant Dan Ofal. Os bydd angen, byddwn yn ceisio cymorth proffesiynol oddi wrth asiantaethau allanol er mwyn diwallu anghenion y plentyn yn llawn.

## TREFN DIOGELU PLANT

Mae pob aelod o staff yr ysgol hon yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn y plant sy'n ei mynychu. Os ceir pryderon ynglŷn ag esgeulustra neu gam-drin corfforol, emosiynol neu rywiol, yna mae'n ddyletswydd ar y staff , yn unol â Threfn Diogelu Plant y Sir, i sôn am y mater wrth Gyd-gysylltydd Diogelu Plant yr Ysgol. Gall Cyd-gysylltydd yr ysgol ymgynghori â chyd-weithwyr proffesiynol yn ogystal ag asiantaethau perthnasol megis y Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol. Yn dilyn y trafodaethau hyn, efallai y bydd rhaid i gyd-gysylltydd yr ysgol gyfeirio'r plentyn yn swyddogol i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, yn unol â chanllawiau a phrotocol y sir. Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n penderfynu a oes angen gweithredu neu beidio. Oblegid natur y cyhuddiadau, ni fydd hi bob amser yn briodol i drafod materion gyda'r rhieni cyn cyfeirio'r plentyn. Y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio i gyhuddiadau. Y Pennaeth yw Cyd-gysylltydd Diogelu Plant yr Ysgol.

## CWYNION

Gall athro dosbarth eich plentyn fel arfer ddelio'n gyflym â chwynion sy'n ymwneud â'r cwricwlwm neu unrhyw agwedd arall ar fywyd yr ysgol. Fel arfer, byddai'n well petaech yn gwneud apwyntiad drwy swyddfa'r ysgol fel y gallwn neilltuo amser priodol i ystyried a datrys unrhyw gwynion. Os nad ydych yn fodlon â'r canlyniad, gallwch drafod y mater ymhellach gyda'r Pennaeth a fydd yn cynnwys y personau priodol angenrheidiol er mwyn datrys y sefyllfa. Os bydd angen, gellir dod â chwynion ysgrifenedig at sylw'r Corff Llywodraethu yn unol â gofynion Deddf Addysg 1998 a rheoliadau'r Awdurdod Lleol.

## CLWB BRECWAST AM DDIM

Bwriad y clwb yma yw darparu brecwast maethlon i'r plant. Mae'r drysau i gofrestru'ch plant yn y clwb ar agor o 8.10am hyd at 8.25am. Os hoffech gofrestru'ch plentyn yn y clwb yma, yna cysylltwch â'r ysgol.

## PRESENOLDEB

Mae presenoldeb Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn yn gyson uchel. Absenoldeb o'r ysgol – Dylid rhoi gwybod i'r ysgol drwy ffonio / anfon nodyn ar y diwrnod cyntaf os yw plant yn mynd i fod yn absennol. Rydym yn poeni os oes plant yn absennol o'r ysgol a byddwn yn cysylltu â'r rhieni ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb. Os na fyddwn yn derbyn gwybodaeth am absenoldeb bydd y plant yn cael marc 'absenoldeb heb awdurdod'.


### CYMDEITHAS RHEINI AC ATHRAWON

Mae gennym Gymdeithas Rhieni ac Athrawon gweithgar sy'n cynnal digwyddiadau rheolaidd i godi arian ac i gynnwys rhieni yn weithredol ym mywyd yr ysgol. Os hoffech gymryd rhan, cysylltwch â'r swyddfa. Mae eich cefnogaeth yn amhrisiadwy. Mae rhieni'n cael eu hannog i ddod i'r ysgol i weithio ochr yn ochr ag athrawon mewn llawer o weithgareddau. Os oes gennych ddawn arbennig, peidiwch ofni dweud wrthon ni. Yn yr un modd, os oes unrhyw bryderon neu bryderon, mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol, boed yn Bennaeth, Llywodraethwr, athro dosbarth neu'r swyddfa – pa un bynnag sydd fwyaf cyfleus.

**Cynlluniau y mae'r Ysgol yn ymwneud â nhw a Gwobrau a enillwyd:**

| **Y Cynllun Gwen:** | **Gwobr:** |
|---|---|
| Mae'r Ysgol wedi bod yn gweithredu'r Cynllun Gwên ers 2009 o fewn y Dysgu Sylfaen ac wedi | *Gwobr Aur* |

| | |
|---|---|
| llwyddo derbyn y Wobr Aur sef y wobr uchaf a roddwyd i Ysgolion. Mae staff y Dysgu Sylfaen wedi derbyn hyfforddiant penodol sydd yn eu galluogi i weithredu'r cynllun yn ddyddiol a dysgu'r disgyblion ar sut i frwsio dannedd yn annibynnol ac yn effeithiol. Mae'r disgyblion yn ymwybodol pam mae'n bwysig i frwsio dannedd a pam rhaid brwsio 2 gwaith y dydd am 2 munud. Er mwyn cyrchu gwybodaeth bellach am y Cynllun, cliciwch ar y ddolen yma:<br><br>[Cynllun Gwên: gwella iechyd deintyddol plant \| LLYW.CYMRU]<br><br>[Cynllun Gwên - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)]<br><br>[Gwybodaeth i rieni a gofalwyr - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)] | |
| **Y Cynllun Ysgolion Iach:**<br><br>Mae'r ysgol wedi cymryd rhan weithgar â'r cynllun Ysgolion Iach ers tua 15 mlynedd bellach ac wedi ymrwymo i weithredu egwyddorion y Cynllun. Yn ystod y 15 mlynedd mae'r ysgol wedi canolbwyntio ar ddatblygu 7 maes iechyd sy'n gysylltiedig â'r Cynllun, gan sicrhau bod Dull Ysgol Gyfan yn cael ei ymgorffori mewn perthynas â'u gweithredu. Mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus wrth ennill Gwobr Cam 6 o fewn y Cynllun ac rydym yn ddiweddar wedi llwyddo wrth ennill Y Wobr Ansawdd Genedlaethol, sef y wobr uchaf y gellir ei chyflawni o fewn y cynllun. Am fanylion pellach, cliclwch ar y ddolen yma: | **Gwobr:**<br><br>Cam 6<br><br><br>Gwobr Ansawdd Genedlaethol |

| | |
|---|---|
| [Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)] | |
| **Y Cynllun Eco**<br><br>Mae'r Ysgol wedi cymryd rhan gweithgar yn y Cynllun Eco ers………Mae Cyngor Eco wedi'i sefydlu yn yr Ysgol sydd yn arwain ar y gwaith a nodwyd yn Cynllun Gweithredu'r Ysgol ar faterion amgylcheddol.<br><br>Mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran gweithredu'r cynllun ac wedi ennill y Wobr Platinwm am y 4ydd tro yn olynnol yn ystod Hydref 2022.<br><br>Am fanylion pellach am y Cynllun Eco, cliciwch ar y ddolen yma: [Home - Eco Schools (eco-schools.org.uk)]<br><br>What is Eco-Schools? - Eco Schools | ***Gwobr:***<br><br>**Platinwm**<br><br><br><br> |
| **Masnach Deg**<br><br>Rydym wedi ennill y statws 'Ysgol Fasnach Deg' ers 2015.<br>Mae'r ysgol yn hyrwyddo, yn cefnogi ac yn defnyddio cynnyrch Masnach Deg lle bynnag phosib. Rydym wedi ymrwymo i hybu Masnach Deg trwy ein cwricwlwm cyfoethog a thrwy werthu a defnyddio nwyddau Masnach Deg lle bo'n bosibl trwy gydol y flwyddyn academaidd. Yn | |

| | |
|---|---|
| flynyddol, rydym fel ysgol yn dathlu Pythefnos Masnach Deg gydag amrywiaeth o weithgareddau creadigol.<br>Gwobrau - 2015 - Gwobr FairAware<br>2016 - Gwobr FairActive<br>2017 - Gwobr FairAchiever<br>2020 - Gwobr FairAchiever<br>2023 - Yn aros am ganlyniad Gwobr FairAchiever - Tachwedd 2023 | |













